

Arweiniad ar Insiwleiddio Sŵn

O bryd i'w gilydd, mae sŵn pobl eraill yn tarfu arnon ni i gyd. Yn aml iawn, mae synau bob dydd i'w clywed drwy welydd cymdogion oherwydd nad ydy insiwleiddio sŵn adeiladu ddim yn cyfateb â safonau heddiw.

Mae synau bob dydd yn cynnwys:

- Sŵn traed
- Tanio a diffodd switshys golau
- Sgwrsio cyffredinol
- Drysau'n cau
- Tŷ bach yn cael ei ddefnyddio
- Babanod yn crio
- Plant yn chwarae

Mewn achosion o'r fath, ni all Tîm Sŵn y GRhR helpu. Mae cyfraith achos o Dŷ'r Arglwyddi'n datgan na all defnydd cyffredin cartref lle mae pobl yn byw gael ei ystyried yn niwsans statudol.

Gofynion Cyfreithiol

Nid ydy adeiladau a godwyd cyn 1990 neu a gafodd eu haddasu cyn 1992 yn gorfod cydymffurfio â'r un safonau a phetaen nhw wedi cael eu codi neu eu haddasu heddiw. Dywed cyfraith achos nad ydy landlordiaid, Cymdeithasau Tai nac adeiladwyr yn gyfrifol am uwchraddio insiwleiddio sŵn o fewn adeiladau a godwyd cyn 1990 neu a gafodd eu haddasu cyn 1992.

Dylai pob adeilad sy wedi cael ei godi ers 1990 neu ei addasu ers 1992 gydymffurfio â'r Rheolau Adeiladu (Dogfen Gymeradwy E) gyfredol pan gafodd y gwaith ei wneud. Safonau isafbwynt ydy'r rhain, ac nid ydynt yn golygu y bydd adeiladau'n gwbl wrthsain.

Cyngor Pellach

Ymgynghoriaeth annibynnol a diduedd yn seiliedig ar ymchwil yw'r BRE (The Building Research Establishment). Mae taflen yn rhad ac am ddim ar wella insiwleiddio sŵn ar gael i'w lawrlwytho o [wefan y BRE](#).